Archwilio Cymru
Audit Wales

# Stadiwm Nantporth – Cyngor Dinas Bangor

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1444A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â’r swyddogaethau statudol ac mae’n cynnwys argymhellion ysgrifenedig a wneir dan Adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw berson arall yn eu cymhwyster unigol nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Ym mis Hydref 2018, tynnwyd fy sylw at faterion mewn perthynas â threfniadau Cyngor Dinas Bangor ar gyfer prydlesu Stadiwm Nantporth. Yn dilyn proses archwilio helaeth, mae'r adroddiad hwn yn nodi fy nghanfyddiadau a gwendidau a ganfuwyd yn nhrefniadau'r Cyngor. Yn yr adroddiad, rwy'n cynnwys argymhellion a wneir o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yn awr mae angen i'r Cyngor ymateb yn ffurfiol i'm hargymhellion.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

- Fe werthodd y Cyngor safle'r stadiwm pêl-droed yn Ffordd Farrar i ddatblygwr a ariannodd ac a adeiladodd stadiwm pêl-droed newydd i'r Cyngor 5
- Ar 28 Tachwedd 2011, cytunodd Aelodau i brydlesu Stadiwm Nantporth i Glwb Pêl-droed Bangor ac fe wnaethant roi awdurdod i Glerc y Dref ar y pryd lunio a llofnodi'r ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol ar gyfer y brydles 6
- Ffurfiwyd CBC Nantporth ym mis Rhagfyr 2011 gan ddatgan mai ei fwriad oedd cymryd Stadiwm Nantporth ar brydles gan y Cyngor ac yna'i is-brydlesu i Glwb Pêl-droed Dinas Bangor 8
- Ym mis Ionawr 2012 cynigiodd y Clwb Pêl-droed roi'r brydles ar gyfer Stadiwm Nantporth i CBC Nantporth, cynnig y dynododd cyfreithiwr y Cyngor nad oedd unrhyw wrthwynebiad iddo mewn egwyddor a chafodd rhai darpariaethau penodol eu cynnwys yn y brydles i adlewyrchu'r trefniant hwn 10
- Er bod y Cyngor wedi datgan bod Aelodau'n llwyr ymwybodol o'r newidiadau i'r trefniant prydlesu a gymeradwywyd yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2011, nid oes tystiolaeth wedi'i dogfennu i ategu'r farn hon 11
- Roedd diffyg tryloywder yn y broses ddilynol i adrodd ar y trefniadau prydlesu ac roedd yn gamarweiniol am nad oedd yn cyfeirio at CBC Nantporth na'r trefniant is-brydlesu gyda'r Clwb Pêl-droed 12
- Nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro'r brydles a rheoli'r berthynas â CBC Nantporth yn ddigon cadarn 13
- Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol ei fod wedi dod yn gyfranddaliwr yn CBC Nantporth yn 2017 15
- Nid yw cofnodion y Cyngor yn dangos tystiolaeth glir o'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor i roi benthyciad i CBC Nantporth yn 2018 15

Argymhellion statudol a'r camau nesaf 17

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau a chasgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o Gyngor Dinas Bangor (y Cyngor) ar gyfer 2018-19. Yn ystod yr archwiliad, dygwyd materion i'm sylw a oedd yn dynodi diffygion mewn trefniadau llywodraethu ariannol a phrosesau penderfynu mewn perthynas â gosod Stadiwm Nantporth ar brydles i Gwmni Buddiannau Cymunedol Nantporth (CBC Nantporth).

2 Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r Cyngor at y methiannau hyn mewn trefniadau llywodraethu a phrosesau penderfynu. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gan y Cyngor ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau a oedd yn ymwneud â phrydles stadiwm Nantporth. Rwyf hefyd wedi ystyried a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ar y materion hyn dan adran 22 Deddf 2004.

3 Rwyf hefyd yn ystyried ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos unrhyw gamau y mae wedi'u cymryd yn barod i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau o'r fath yn digwydd eto yn cael ei lleihau i'r eithaf. Fe ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol i ddogfen a oedd yn nodi fy nghanfyddiadau a chasgliadau cychwynnol.

4 Yng ngoleuni'r camau gweithredu a gymerwyd yn barod gan y Cyngor yn ystod 2020, rwyf wedi penderfynu y bydd argymhellion statudol yn ddigon.

5 Felly, i gynorthwyo'r Cyngor i atal materion tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol, rwy'n gwneud argymhellion ysgrifenedig dan adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

### Cyngor Dinas Bangor

6 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu dinas gadeiriol a chymuned Bangor yng Ngwynedd sydd â phoblogaeth o oddeutu 16,500. Mae gan y Cyngor 20 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli wyth ward. Ym mlwyddyn ariannol 2017-18 gwariodd y Cyngor oddeutu £600,000 ar wasanaethau lleol a chafodd incwm o oddeutu £430,000, yr oedd £360,000 ohono ar ffurf praesept gan Gyngor Gwynedd. Mae Cyngor Gwynedd yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid y Cyngor o bwrs y wlad a chaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol.

7 Mae'r Cyngor yn cyflogi Clerc y Dref, a'i rôl yw rhoi cyngor a chymorth gweinyddol i'r Cyngor a gweithredu i roi penderfyniadau'r Cyngor ar waith. Clerc y Dref hefyd yw Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor ac mae'n gyfrifol am weinyddu cyllid y Cyngor.

8 Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd y Cyngor yn cyflogi Mr Gwyn Hughes fel Clerc y Dref tan fis Awst 2015 ac yna Mr Ian Jones o fis Medi 2015. Gadawodd Mr Jones y Cyngor ar ddiwedd 2019. Yn yr adroddiad hwn, cyfeirir at Mr Hughes fel Clerc y Dref ar y pryd.

### Fy ngwaith archwilio

9 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

10 Ym mis Hydref 2018 cefais ohebiaeth a oedd yn codi pryderon am brydlesu Stadiwm Nantporth, yn benodol bod y brydles wedi cael ei gwneud gyda Chwmni Buddiannau Cymunedol Nantporth (CBC Nantporth) heb gymeradwyaeth y Cyngor ac a oedd yn cwestiynu a oedd unrhyw ddiwydrwydd dyladwy wedi cael ei gyflawni. Fe estynnais gwmpas fy ngwaith archwilio i archwilio'r trefniant prydlesu ar gyfer Stadiwm Nantporth.

11 Arferai'r Cyngor fod yn berchen ar y stadiwm pêl-droed yn Ffordd Farrar, Bangor, a oedd yn gartref i Glwb Pêl-droed Dinas Bangor (y Clwb Pêl-droed). Gwerthwyd safle'r stadiwm i ddatblygwyr ar yr amod y byddai'r datblygwyr yn prynu tir, ac yn cyllido ac yn adeiladu stadiwm pêl-droed newydd i'r Cyngor.

# Canfyddiadau allweddol

## Fe werthodd y Cyngor safle'r stadiwm pêl-droed yn Ffordd Farrar i ddatblygwr a gyllidodd ac a adeiladodd stadiwm pêl-droed newydd i'r Cyngor

12 Oddeutu 2004-05, fe gysylltodd datblygwr â'r Cyngor â chynnig i brynu safle'r stadiwm pêl-droed ar Ffordd Farrar ac, fel rhan o'r cytundeb, i adeiladu stadiwm a chyfleusterau pêl-droed newydd yn ardal y Cyngor. Byddai'r cyfleusterau newydd yn cynnwys caeau ymarfer ag wyneb artiffisial.

13 Dywedodd Clerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes) wrthyf mai un o'r ffactorau a ategodd benderfyniad y Cyngor i dderbyn cynnig y datblygwr oedd cynnwys cae artiffisial. Byddai hyn yn hybu timau pêl-droed iau ac ieuenctid yn ogystal â phêl-droed i aelodau'r gymuned leol.

14 Yn 2010, fe geisiodd y datblygwr ailnegodi'r fargen gyda'r Cyngor, trwy wneud newidiadau i'r gofynion yn yr atodlen a oedd eisoes yn bodoli. Cafodd llythyr oddi wrth y datblygwyr ei ystyried yn y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (Pwyllgor CaDC) ar 27 Medi 2010.

15 Roedd y cynigion ar gyfer datblygu stadiwm newydd yn dal i gynnwys ardal ymarfer. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Clwb Pêl-droed yn ceisio cymorth grant i wella'r cyfleusterau ymarfer ar y safle ac y byddai hyn yn uwchraddio'r cynigion gwreiddiol gan y datblygwr. Penderfynodd y Pwyllgor gynnwys y Clwb Pêl-droed yn y negodiadau gyda'r datblygwyr ynghylch y cyfleusterau ymarfer.

16 Mae cyn-Glerc y Dref (Mr Hughes) wedi dweud wrthyf fod trafodaethau wedi digwydd rhwng y Cyngor, y datblygwyr a'r Clwb Pêl-droed ar ôl cyfarfod y Pwyllgor

CaDC ar 27 Medi 2010, lle cafodd pryderon y Cyngor ynghylch y stadiwm newydd a'i uchelgeisiau ar ei gyfer eu gwneud yn glir. Dywedwyd wrthyf fod y Cyngor yn awyddus i sicrhau y byddai sefydlogrwydd yn nhenantiaeth y stadiwm, gan nad oedd am weld sefyllfa a oedd wedi datblygu nifer o weithiau dros y blynyddoedd yn codi eto lle'r oedd y Clwb Pêl-droed wedi rhoi'r gorau i dalu rhent i'r Cyngor. Roedd ar y Cyngor eisiau sicrwydd gan y Clwb Pêl-droed hefyd y byddai'r cae ymarfer a fyddai'n cael ei ddarparu ar y safle'n ased ar gyfer y gymuned gyfan ac nid yn gyfleusterau ar gyfer defnydd y Clwb Pêl-droed fel cwmni preifat yn unig.

17 Aeth y datblygwr ati i adeiladu'r stadiwm newydd, a enwyd yn Stadiwm Nantporth, ar dir a brynwyd gan y datblygwr yn Heol Caergybi, Bangor, ac fe drosglwyddodd berchnogaeth ar y tir i'r Cyngor ym mis Ionawr 2012.

## Ar 28 Tachwedd 2011, cytunodd Aelodau i brydlesu Stadiwm Nantporth i Glwb Pêl-droed Bangor ac fe wnaethant roi awdurdod i Glerc y Dref ar y pryd lunio a llofnodi'r ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol ar gyfer y brydles

18 Bwriad y Cyngor oedd prydlesu Stadiwm Nantporth i'r Clwb Pêl-droed ar sail hirdymor, fel a ddangosir yng nghofnodion pwyllgorau (**Arddangosion 1 a 2**).

**Arddangosyn 1: Y Pwyllgor Cynllunio ac Amwynderau**

Ym mis Ebrill 2011, rhoddodd y Cyngor awdurdod i Glerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes) gysylltu â syrfëwr i ddrafftio telerau ar gyfer prydles i'r clwb pêl-droed.

| **Y Pwyllgor Cynllunio ac Amwynderau, 18 Ebrill 2011** |
| --- |
| Rhoi pwerau i Glerc y Dref Weithredu i gysylltu â syrfëwr i ddrafftio telerau'r brydles ar gyfer gosod y safle ar sail hirdymor i'r Clwb Pêl-droed fel a gytunwyd yn flaenorol gan y Cyngor. |

Ffynhonnell: Cofnodion y Cyngor

**Arddangosyn 2: Y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol**

Ym mis Medi 2011, dywedodd Clerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes) ei fod wedi rhoi comisiwn i'r Prisiwr Dosbarth i gytuno ar delerau prydles gyda'r Clwb Pêl-droed.

**Y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, 26 Medi 2011**

Dywedodd Clerc y Dref ei fod wedi rhoi comisiwn yn ddiweddar i'r Prisiwr Dosbarth i gytuno ar delerau'r brydles rhwng Cyngor y Ddinas a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor a hefyd i bennu swm blynyddol y rhent.

Ffynhonnell: Cofnodion y Cyngor

19 Mae Adran 50 o Reoliadau Ariannol y Cyngor yn nodi fel a ganlyn: 'Ni ddylai unrhyw dir nac eiddo gael eu gwerthu na'u prydlesu, na'u gwaredu fel arall, heb awdurdod y Cyngor.'

20 Cytunodd Aelodau'r Cyngor i brydlesu Stadiwm Nantporth i'r Clwb Pêl-droed yn y Pwyllgor CaDC ar 28 Tachwedd 2011. Hefyd, rhoddodd yr Aelodau awdurdod i Glerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes) lunio a llofnodi'r ddogfennaeth gyfreithiol ar gyfer y brydles (**Arddangosyn 3**).

**Arddangosyn 3: Y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol**

Ym mis Tachwedd 2011, cytunodd y Cyngor i brydlesu'r stadiwm i'r Clwb Pêl-droed.

**Y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, 28 Tachwedd 2011**

PENDERFYNWYD cytuno'n ffurfiol i brydlesu Stadiwm Nantporth rhwng Cyngor y Ddinas a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor gyda'r amodau a nodwyd gan y Prisiwr Dosbarth am y rhent blynyddol y cytunwyd arno ac i roi i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â Chyfreithiwr y Cyngor, Bwerau i Weithredu i lunio a llofnodi'r ddogfennaeth gyfreithiol.

Ffynhonnell: Cofnodion y Cyngor

21 Ar 22 Rhagfyr 2011, anfonodd cyfreithiwr y Cyngor brydles at Glerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes) yr oedd wedi'i pharatoi i'r Cyngor brydlesu Stadiwm Nantporth i'r Clwb Pêl-droed a oedd yn cymryd prisiad y Prisiwr Dosbarth o'r eiddo i ystyriaeth. Ni ddefnyddiwyd y cytundeb prydlesu hwn wedi hynny.

## Ffurfiwyd CBC Nantporth ym mis Rhagfyr 2011 gan ddatgan mai ei fwriad oedd cymryd Stadiwm Nantporth ar brydles gan y Cyngor ac yna'i is-brydlesu i Glwb Pêl-droed Dinas Bangor

22 Cwmnïau cyfyngedig sy'n gweithredu er budd y gymuned a wasanaethir ganddynt yw Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CBC). Ni ellir defnyddio CBC er mantais i grŵp o bobl, at ddibenion gwleidyddol, nac er budd cyflogeion, cyfarwyddwyr neu aelodau o sefydliad unigol yn unig.

23 Ymgorfforwyd CBC Nantporth ar 30 Rhagfyr 2011. Roedd Cadeirydd Clwb Pêl-droed Dinas Bangor ar y pryd ac Ysgrifennydd Clwb Pêl-droed Dinas Bangor wedi'u henwi fel cyfarwyddwyr a chyfranddalwyr cychwynnol yn CBC Nantporth.

24 Er mwyn ffurfio CBC Nantporth roedd yn ofynnol cyflwyno Ffurflen CIC36, 'Datganiadau ar Ffurfio Cwmni Buddiannau Cymunedol' i Swyddfa'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol. Ffurflen CIC36 yw'r datganiad buddiannau cymunedol a'i diben yw cadarnhau y bydd y CBC yn dwyn budd i'r gymuned. Mae'n gweud hyn trwy ddisgrifio'i weithgareddau bwriadedig, pwy fyddant yn eu helpu a sut. Mae'r wybodaeth a roddir ar Ffurflen CIC36 yn galluogi Swyddfa'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol i benderfynu ynglŷn â chymhwystra cwmni ar gyfer statws CBC.

25 Cwblhawyd Ffurflen CIC36 ar gyfer CBC Nantporth ar 8 Rhagfyr 2011. Mae 'Adran A: Datganiad Buddiannau Cymunedol - Buddiolwyr' yn nodi'r buddion a buddiolwyr bwriadedig (**Arddangosyn 4**).

**Arddangosyn 4: Datganiad Buddiannau Cymunedol CBC Nantporth - buddiolwyr**

Mae'r datganiad buddiannau cymunedol yn nodi y bydd cyfleusterau Stadiwm Nantporth ar gael i gael eu defnyddio gan y gymuned leol.

**Adran A: Datganiad Buddiannau Cymunedol - buddiolwyr**

Trwy'r cyfleusterau sydd ar gael yn Stadiwm newydd Nantporth, bydd CBC Nantporth yn dwyn buddion o ran chwaraeon, iechyd, llesiant ac ymarfer corff i'r gymuned leol gan gynnwys yr ifanc, oedolion ifanc, a thrigolion hŷn yn nalgylchoedd Bangor a De Ynys Môn.

Mae hyn yn cynnwys cyfranogwyr benywaidd, digwyddiadau tîm a'r rhai ag anableddau a heb wahaniaethu.

Bydd Stadiwm Nantporth yn ganolfan 'perchnogaeth' ac argaeledd cyfleusterau hamdden ar gyfer y gymuned leol.

Ffynhonnell: Ffurflen CIC36 CBC Nantporth Datganiadau ar Ffurfio Cwmni Buddiannau Cymunedol

26 Caiff bwriad CBC Nantporth i gymryd Stadiwm Nantporth ar brydles gan y Cyngor ac yna'i is-brydlesu i'r Clwb Pêl-droed ei ddatgan yn eglur yn Ffurflen CIC36, 'Adran B: Datganiad Buddiannau Cymunedol – Gweithgareddau a Budd Cysylltiedig'. Mae Ffurflen CIC36 hefyd yn nodi manteision y trefniant prydlesu hwn i'r gymuned (**Arddangosyn 5**).

**Arddangosyn 5: Datganiad Buddiannau Cymunedol CBC Nantporth – Gweithgareddau a Budd Cysylltiedig**

Mae'r Ffurflen CIC36 yn nodi bwriad CBC Nantporth i brydlesu'r stadiwm i'r Clwb Pêl-droed a manteision y trefniant hwn.

**Adran B: Datganiad Buddiannau Cymunedol – Gweithgareddau a Budd Cysylltiedig**

Bwriedir sefydlu'r CBC newydd fel endid ar wahân i Glwb Pêl-droed Dinas Bangor Cyf (a fydd yn cael Is-brydles) i ddiogelu'r stadiwm gan gynnwys ei gyfleusterau a'r cae 3G arfaethedig rhag unrhyw anawsterau ariannol y gallai'r Clwb Pêl-droed eu profi yn y dyfodol. Budd y cam gweithredu hwn i'r gymuned yw ei fod yn darparu mesur diogelu pe bai Clwb Pêl-droed Dinas Bangor Cyf yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr / yn dod yn fethdalwr unrhyw bryd ac felly bydd y cyfleusterau (yn rhai presennol ac arfaethedig) yn parhau er budd y gymuned heb unrhyw effaith arnynt.

Fel a nodwyd, bydd CBC Nantporth yn rhoi is-brydles i Glwb Pêl-droed Dinas Bangor Cyf a fyddai'n dychwelyd i CBC Nantporth pe bai'r is-denant yn profi anawsterau.

CBC Nantporth fydd yn gyfrifol am gasglu'r rhent y cytunwyd arno gan yr is-denant ac am sicrhau bod taliad yn cael ei wneud i'r Rhydd-ddeiliad (Cyngor Dinas Bangor) yn unol â'r telerau ac amodau.

CBC Nantporth fydd yn gyfrifol am gostau staffio a chostau rhedeg y stadiwm a'r cae 3G, unwaith y bydd wedi'i sefydlu ac yn masnachu.

Ffynhonnell: Ffurflen CIC36 CBC Nantporth, Datganiadau ar Ffurfio Cwmni Buddiannau Cymunedol

## Ym mis Ionawr 2012 cynigiodd y Clwb Pêl-droed roi'r brydles ar gyfer Stadiwm Nantporth i CBC Nantporth, cynnig y dynododd cyfreithiwr y Cyngor nad oedd unrhyw wrthwynebiad iddo mewn egwyddor a chafodd rhai darpariaethau penodol eu cynnwys mewn prydles ddiwygiedig i adlewyrchu'r trefniant hwn

27 Cysylltodd y Clwb Pêl-droed â Chlerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes) a chyfreithiwr y Cyngor ym mis Ionawr 2012 gan gynnig bod prydles Stadiwm Nantporth yn cael ei rhoi i CBC Nantporth, a fyddai wedyn yn rhoi is-brydles i'r Clwb Pêl-droed.

28 Wrth arfer unrhyw bwerau statudol, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu'n rhesymol ac yn arfer diwydrwydd dyladwy wrth ystyried penderfyniad. Proses diwydrwydd dyladwy'r Cyngor ar gyfer prydlesu Stadiwm Nantporth i CBC Nantporth oedd bod Clerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes) yn ceisio cyngor cyfreithiol gan ei gyfreithiwr, a arweiniodd at gynnwys darpariaethau penodol yn y brydles i warchod buddiannau'r Cyngor mewn perthynas â threfniant is-brydlesu a gofyn am gytundeb gwarant.

29 Dynododd y cyfreithiwr nad oedd unrhyw wrthwynebiadau penodol i roi'r brydles i CBC Nantporth, ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau mewn egwyddor bod CBC Nantporth yn rhoi is-brydles i'r Clwb Pêl-droed, ar yr amod bod yr eiddo cyfan yn cael ei is-brydlesu.

30 Cafodd y darpariaethau penodol canlynol eu cynnwys yn y brydles i adlewyrchu'r trefniant is-brydlesu:

- darparu ar gyfer is-brydlesu'r eiddo cyfan yn unig, gyda chydsyniad ysgrifenedig y Cyngor (Cymal 2.15.1 a Chymal 2.15.2);
- darparu bod y Cyngor yn cael taliadau rhent yn fisol ymlaen llaw, nid yn flynyddol (Cymal 1.1);
- ei gwneud yn ofynnol i'r CBC roi swm o £17,250.00 (swm sy'n gyfwerth â'r rhent blynyddol a godir) mewn cyfrif banc adneuo tra pery'r brydles (Cymal 2.22).

31 Y rheswm dros y cais am gytundeb gwarant yn y brydles oedd er mwyn diogelu'r rhent gan nad oedd asedau sylweddol gan CBC Nantporth heblaw am y brydles, a bod y Cyngor wedi profi anawsterau yn hanesyddol wrth gael taliadau rhent gan y Clwb Pêl-droed.

32 Anfonwyd y cais am gytundeb gwarant gan gyfreithiwr y Cyngor at gyfreithiwr y Clwb Pêl-droed. Gwrthodwyd y cais ac nid oedd cyfarwyddwyr y Clwb Pêl-droed na chyfarwyddwyr y CBC yn barod i weithredu fel gwarantwyr. Aeth y brydles yn ei blaen heb y gwarantau hyn.

## Er bod y Cyngor wedi datgan bod Aelodau'n llwyr ymwybodol o'r newidiadau i'r trefniant prydlesu a gymeradwywyd yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2011, nid oes tystiolaeth wedi'i dogfennu i ategu'r farn hon

33 Anfonodd cyfreithiwr y Cyngor e-bost at Glerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes) ar 16 Ionawr 2012 yn datgan bod y Clwb Pêl-droed 'bellach yn cynnig y dylai'r Brydles gael ei rhoi i Gwmni Buddiannau Cymunedol Nantporth'.

34 Yr unig gyfarfod ffurfiol i gael ei gynnal gan y Cyngor rhwng 16 Ionawr 2012 a llofnodi'r brydles ar 27 Ionawr 2012 oedd Cyfarfod Arbennig gan y Pwyllgor Cynllunio ac Amwynderau ar 25 Ionawr 2012. Diben y cyfarfod hwn oedd ystyried yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol, ac nid yw'r cofnodion yn cyfeirio o gwbl at brydlesu Stadiwm Nantporth.

35 Ar 27 Ionawr 2012, fe wnaeth dau Aelod, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar y pryd, lofnodi prydles 30 mlynedd ar gyfer Stadiwm Nantporth rhwng y Cyngor a CBC Nantporth, yng ngŵydd Clerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes).

36 Mae hyn yn gyson â Rheolau Sefydlog cyfredol y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol bod dau Aelod o'r Cyngor yn awdurdodi dogfennau perthnasol megis prydlesi.

37 Mae cyn-Glerc y Dref (Mr Hughes) wedi dweud wrthyf y byddai'r trefniant prydlesu arfaethedig gyda CBC Nantporth yn goresgyn pryderon y Cyngor ynghylch y Clwb Pêl-droed yn peidio â thalu rhent a hefyd yn sicrhau y byddai'r holl gyfleusterau ar y safle, gan gynnwys y cyfleusterau cynadleddau/adloniant a'r caeau artiffisial, yn cael eu diogelu a'u gwarchod i gael eu defnyddio gan y gymuned leol. Safbwynt y Cyngor yw bod y trefniant hwn yn ddarbodus, gan ei fod yn amddiffyn y Cyngor rhag effaith peryglon economaidd rhedeg Clwb Pel-droed.

38 Mae'r Cyngor wedi datgan bod y mwyafrif o'r Aelodau presennol, a oedd yn Aelodau ar yr adeg hon, yn hawlio'u bod yn ymwybodol o'r newidiadau i'r trefniant prydlesu, bod y materion wedi cael eu trafod a bod Aelodau wedi rhoi cymeradwyaeth i ddyfarnu'r brydles i CBC Nantporth.

39 Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu bod Aelodau wedi cael y cyfle i drafod a ddylid rhoi'r brydles i CBC Nantporth nac i geisio sicrwydd bod proses diwydrwydd dyladwy gadarn a thrylwyr wedi cael ei chynnal a oedd yn asesu ac yn gwerthuso buddion, rhwymedigaethau, risgiau a chyfleoedd y trefniadau prydlesu arfaethedig mewn modd cynhwysfawr. Mae'r Cyngor yn derbyn nad yw ei gofnodion ysgrifenedig ar y mater hwn yn glir ac na wnaeth nodi manylion y sefyllfa wrth iddi ddatblygu.

40 Ar ben hynny, mae Cadeirydd y Pwyllgor CaDC wedi datgan: 'Rwy'n cofio Clerc y Ddinas ar y pryd yn gofyn i mi lofnodi dogfen a oedd yn Brydles rhwng y Cyngor a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor.'

41 Mae gan y Cyngor yr awdurdod statudol i ymrwymo i gytundebau prydlesu, ond rhaid iddo arfer yr awdurdod hwnnw'n rhesymol, ac mae hyn yn golygu dilyn

proses briodol i negodi a chymeradwyo'r brydles. Er mai prydlesu Stadiwm Nantporth i'r Clwb Pêl-droed oedd bwriad y Cyngor, yn fy marn i, mae'r trefniant prydlesu yr ymrwymwyd iddo'n wahanol yn ei hanfod i'r un a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2011, ac felly ni ddylai'r Aelodau fod wedi llofnodi'r brydles heb iddi gael ei hailgymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor.

## Roedd diffyg tryloywder yn y broses ddilynol i adrodd ar y trefniadau prydlesu ac roedd yn gamarweiniol am nad oedd yn cyfeirio at CBC Nantporth na'r trefniant is-brydlesu gyda'r Clwb Pêl-droed

42 Darparwyd diweddariad ar y stadiwm pêl-droed newydd yn **Cyllideb ar gyfer 2012/13 – Adroddiad Clerc y Dref** a gyflwynwyd i Gyfarfod Arbennig y Pwyllgor CaDC ar 13 Chwefror 2012.

43 Nid yw'r adroddiad yn cyfeirio o gwbl at CBC Nantporth na'r trefniant is-brydlesu gyda'r Clwb Pêl-droed. Mae'r adroddiad yn datgan bod y Clwb Pêl-droed yn prydlesu Stadiwm Nantporth yn uniongyrchol gan y Cyngor a bod y Cyngor yn cael taliadau rhent misol yn uniongyrchol gan y Clwb Pêl-droed ac nid CBC Nantporth.

**Arddangosyn 6: Adroddiad Clerc y Cyngor Tref ar y Gyllideb 2012-13**

Mae Adroddiad Clerc y Dref ar y Gyllideb 2012-13 yn datgan yn anghywir bod y Cyngor wedi prydlesu'r stadiwm pêl-droed i Glwb Pêl-droed Dinas Bangor.

**Adroddiad Clerc y Dref, Eitem 4 – Stadiwm pêl-droed newydd**

4) Stadiwm pêl-droed newydd

Rwy'n falch iawn i adrodd bod prosiect Stadiwm Nantporth bellach wedi'i gwblhau, gyda safle Ffordd Farrar bellach yn cael ei ailddatblygu at ddibenion adwerthu bwyd, gan felly drawsnewid rhan o'r Ddinas sydd wedi mynd â'i phen iddi ac sy'n lled adfeiliedig a hybu'r economi a rhan uchaf y Stryd Fawr.

Cafodd y stadiwm newydd ei drosglwyddo'n swyddogol i'r Cyngor ar 30 Ionawr 2012. Ar yr un pryd rhoddwyd prydles 30 mlynedd ar gyfer yr eiddo i Glwb Pêl-droed Dinas Bangor gyda Chyngor y Ddinas yn cael taliadau rhent misol ganddynt o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Bydd y trefniant hwn yn galluogi'r Clwb Pêl-droed, fel tenantiaid hirdymor, i gael cymorth grant o ffynonellau amrywiol fel eu bod yn gallu buddsoddi mewn darpariaeth eisteddleoedd gorchuddiedig ychwanegol a chae artiffisial maint llawn, gan felly wella'r cyfleusterau yn y cae newydd. Yn amlwg bydd hyn o fudd i Ddinas Bangor, gan y bydd cyfleusterau chwaraeon ar gyfer y gymuned leol yn ogystal ag ar gyfer y Clwb Pêl-droed yn cael eu gwella. Cyn belled ag y mae Cyngor y Ddinas, fel landlord, yn y cwestiwn, bydd hefyd yn gwella gwerth ei ased.

Ffynhonnell: Adroddiad Clerc y Dref a gyflwynwyd i Gyfarfod Arbennig y Pwyllgor CaDC, 13 Chwefror 2012

44 Er bod y Cyngor yn dweud wrthyf bod Aelodau'n ymwybodol o'r brydles i CBC Nantporth a'r is-brydles i'r Clwb Pêl-droed, a bod Aelodau o'r farn bod y trefniant hwn wedi'i sefydlu i warchod buddiannau'r Cyngor a phwrs y wlad, yn fy marn i mae'r adroddiad hwn yn camarwain y cyhoedd; nid yw'n rhoi disgrifiad cywir o'r trefniadau a oedd yn bodoli.

## Nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro'r brydles a rheoli'r berthynas â CBC Nantporth yn ddigon cadarn

### Nid yw rhai o delerau ac amodau'r brydles rhwng y Cyngor a CBC Nantporth yn cael eu dilyn na'u monitro'n llawn gan y Cyngor

45 O dan gymal 2.22 o'r brydles, mae CBC Nantporth yn cyfamodi gyda'r Cyngor i ddal swm o £17,250 mewn cyfrif banc adneuo tra pery'r brydles, ac i ddangos tystiolaeth i'r Cyngor ar gais bod y dywededig gyfrif yn bodoli.

46 Mae adolygiad o ddatganiadau ariannol CBC Nantporth yn awgrymu bod telerau ac amodau'r brydles ar gyfer y blynyddoedd ariannol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013, 31 Rhagfyr 2014 a 31 Rhagfyr 2017 wedi cael eu torri, gan bod swm yr 'arian yn y banc' yr adroddwyd arno yn eu datganiadau ariannol islaw £17,250.

47 Fe wnaeth cyn-Glerc y Dref (Mr Jones) fy hysbysu nad yw'r Cyngor erioed wedi gofyn i CBC Nantporth ddangos tystiolaeth bod y swm o £17,250 yn cael ei ddal mewn cyfrif banc adneuo.

48 Ar ben hynny, deallaf na wnaeth y Cyngor gynnal adolygiad ffurfiol o'r rhent ar ôl pum mlynedd gyntaf Tymor y brydles, yn unol â chymal 1.2 yn y brydles, ac na chafodd y rhent a oedd yn ddyledus i'r Cyngor ar 27 Ionawr 2019 ei dalu tan fis Mawrth 2019.

### Ni roddodd y Cyngor gydsyniad i CBC Nantporth is-brydlesu Stadiwm Nantporth i'r Clwb Pêl-droed tan fis Hydref 2013

49 Mae Cymal 2.15.2 o'r cytundeb prydlesu'n ei gwneud yn ofynnol i CBC Nantporth gael cydsyniad gan y Cyngor cyn iddo ymrwymo i unrhyw drefniant is-brydlesu gyda thrydydd parti.

**Arddangosyn 7: Telerau prydlesu a oedd yn gysylltiedig ag is-brydlesu Stadiwm Nantporth**

Mae'r brydles rhwng y Cyngor a CBC Nantporth yn ei gwneud yn ofynnol i CBC Nantporth gael cymeradwyaeth gan y Cyngor cyn iddo is-brydlesu Stadiwm Nantporth i drydydd parti.

| **Cymal prydlesu 2.15.2** |
| --- |
| Peidio ag aseinio, tanosod, ildio na rhannu meddiant ar yr Eiddo yn ei gyfanrwydd heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor (ni fydd y cydsyniad hwnnw'n cael ei wrthod yn afresymol). |

Ffynhonnell: Prydles rhwng y Cyngor a CBC Nantporth

50 Cafodd y brydles rhwng CBC Nantporth a'r Clwb Pêl-droed am 'ddeng mlynedd ar hugain namyn deng niwrnod ar hugain' ei gwneud ar 22 Chwefror 2012. Fodd bynnag, dim ond ym mis Hydref 2013, yn unol â Chymal 2.15.2 yn y brydles rhwng y Cyngor a CBC Nantporth, y gwnaeth Clerc y Dref ar y pryd (Mr Hughes) gadarnhau cydsyniad y Cyngor â'r brydles rhwng CBC Nantporth a'r Clwb Pêl-droed.

51 Hefyd, dim ond ym mis Hydref 2013 y cafodd y brydles rhwng y Cyngor a CBC Nantporth a'r brydles rhwng CBC Nantporth a'r Clwb Pêl-droed eu cofrestru yng Nghofrestrfa Tir EM. Nid yw'n glir pam y bu oedi sylweddol cyn cofrestru'r prydlesi. Fodd bynnag, mewn neges e-bost at y Cyngor ym mis Hydref 2013, mae cyfreithiwr y Cyngor yn datgan:

> 'Mea culper [trwy fy mai i]! Nid yw'r cais am gofrestriad erioed wedi cael ei gwblhau. Roedd y Gofrestrfa Tir wedi codi rhai gofynion ac nid oeddwn wedi sylweddoli ein bod heb ymdrin â'r rhain! Mae'r cais bellach wedi cael ei ailgyflwyno.'

52 Cafodd cyfreithiwr y Cyngor gyfle i ymateb i ddogfen a oedd yn nodi fy nghanfyddiadau cychwynnol. Ni ddarparodd ymateb o sylwedd.

53 Cafodd y methiannau i ddarparu'r cydsyniad hwn a chofrestru'r prydlesi gyda Chofrestrfa Tir EM eu hadnabod yn ystod y broses ymgeisio am arian grant i adeiladu cae ymarfer 3G yn y stadiwm. Pe bai'r Cyngor wedi bod yn monitro'r brydles, yma gallai'r materion hyn fod wedi cael eu hadnabod ar adeg gynharach. Nid wyf o'r farn bod cymeradwyaeth ôl-weithredol gan y Cyngor i gydsynio â'r brydles yn amhriodol.

## Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol ei fod wedi dod yn gyfranddaliwr yn CBC Nantporth yn 2017

54 Dyrannodd CBC Nantporth gyfranddaliad i'r Cyngor ym mis Mai 2017. Fodd bynnag, dywedodd y Cyngor nad oedd yn ymwybodol ei fod wedi dod yn gyfranddaliwr yn CBC Nantporth tan 2019 pan gynhaliais fy adolygiad.

55 Yn ystod fy ngwaith dywedwyd wrthyf fod darpariaeth i roi cyfranddaliadau yn CBC Nantporth i unrhyw grŵp neu fusnes cymunedol â buddiant gweithredol neu ariannol yn CBC Nantporth (e.e. ariannwr). Mae Cadeirydd Clwb Pêl-droed Dinas Bangor ar y pryd yn 2011 wedi darparu copi ar fy nghyfer o lythyr a ddarparwyd ar gyfer y Cyngor yn ei ôl ef ar 25 Tachwedd 2011. Mae'r llythyr yn datgan fel a ganlyn: 'Bydd darpariaeth i bob ariannwr neu gyfarwyddwr enwebedig ddod yn gyfranddaliwr (yn CBC Nantporth) yn eu tro.

56 Ym mis Gorffennaf 2013, cytunodd y Cyngor i roi cyfraniad o £58,000 i CBC Nantporth tuag at adeiladu cae 3G yn y stadiwm. Mae cofnodion y Cyngor yn nodi y byddai 'Cynrychiolaeth ar y Cwmni Buddiannau Cymunedol yn cael eu cynnig i Gyngor y Ddinas.'

57 Roedd y cyfraniad hwn felly'n rhoi hawl i'r Cyngor i fod â chyfranddaliad yn CBC Nantporth. Aeth y CBC ymlaen i wneud trefniadau ar gyfer cofrestru'r cyfranddaliad a rhoddwyd y cyfranddaliad i'r Cyngor ym mis Mai 2017.

58 Er y cyfeirir at 'gynrychiolaeth' yng nghofnodion cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf 2013, mae'r Cyngor wedi datgan wrthyf fi nad oedd yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon i ddod yn gyfranddaliwr. Mae hefyd wedi datgan nad oes cyfeiriad at y cyfranddaliad yn unrhyw un o gofnodion y Cyngor. O ystyried y dogfennau ac esboniadau croes i'w gilydd a ddarparwyd, nid wyf wedi gallu canfod i ba raddau yr oedd y Cyngor yn gwybod am y trefniant hwn.

## Nid yw cofnodion y Cyngor yn dangos tystiolaeth glir o'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor i roi benthyciad i CBC Nantporth yn 2018

59 Mae cofnodion y Cyngor yn gofnod cyfreithiol o'r busnes a gynhaliwyd a'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor. Er nad oes angen i gofnodion fod yn gofnod air am air o'r hyn a drafodir, rhaid iddynt ddarparu crynodeb digonol o drafodaethau a chofnod manwl gywir o benderfyniadau a wneir. Gall y Cyngor, trwy benderfyniad, eithrio'r cyhoedd a'r wasg (boed am y cyfan neu ran o'r trafodion) o gyfarfodydd pan fo materion sensitif yn cael eu trafod, megis materion cyfreithiol, cytundebol neu bersonél. Fodd bynnag, rhaid dal i baratoi cofnodion sy'n cwmpasu'r holl faterion a drafodwyd a'r holl benderfyniadau a wnaed, tra bo'r cyhoedd a'r wasg wedi'u heithrio.

60 O dan drefniadau'r is-brydles rhwng CBC Nantporth a'r Clwb Pêl-droed, daliodd y Clwb Pêl-droed i weithredu fel y deiliad cyfrif ar gyfer y cyflenwad trydan, gan gynnwys cyfrifoldeb am dalu'r biliau. Roedd y cyflenwad trydan cyfan yn cael ei

reoli gan y Clwb Pêl-droed. Roedd ar CBC Nantporth angen mynediad i'r adeilad i droi'r trydan ymlaen a'i ddiffodd ar gyfer y cae artiffisial.

61 Ar 13 Chwefror 2018, gofynnodd CBC Nantporth am fenthyciad neu rodd gan y Cyngor i dalu costau gosod cyflenwad trydan ar wahân rhwng y Clwb Pêl-droed a CBC Nantporth.

62 Fe wnaed y cais oherwydd rhai anawsterau rhwng CBC Nantporth a'r Clwb Pêl-droed, a arweiniodd at ganslo prosiectau cymunedol. Roedd ar CBC Nantporth eisiau gwahanu'r cyflenwad fel y gallai weithredu'n annibynnol ar y Clwb Pêl-droed.

63 Dywedodd cyn-Glerc y Dref (Mr Jones) wrthyf fod yr Aelodau wedi cymeradwyo'r cais i roi benthyciad yng nghyfarfod y Cyngor ar 12 Mawrth 2018 (**Arddangosyn 8**). Cynhaliwyd y drafodaeth hon yn ystod Rhan 2 o'r cyfarfod pan oedd y wasg a'r cyhoedd wedi'u heithrio.

64 Ym mis Gorffennaf 2018 fe roddodd y Cyngor fenthyciad di-log am gyfnod o bum mlynedd i CBC Nantporth am £5,259.81. Llofnodwyd y cytundeb benthyca ar ran y Cyngor gan Glerc y Dref ar y pryd (Mr Jones). Talwyd y benthyciad i CBC Nantporth trwy daliad uniongyrchol i gyflenwr y mesurydd ac mae'n rhaid ei ad-dalu'n llawn o fewn pum mlynedd. Ni fydd rhaid talu llog ar y benthyciad os caiff ei ad-dalu'n llaw ar ddiwedd neu cyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd o ddyddiad y taliad. Mae'r benthyciad wedi'i gofnodi yn adroddiad Incwm a Gwariant y Cyngor fel 'Benthyciad AGB' dan 'Canol y Dref:- Gwariant Anuniongyrchol'.

**Arddangosyn 8: Cyfarfod y Cyngor**

Ym mis Mawrth 2018, cytunodd y Cyngor i roi benthyciad i CBC Nantporth.

**Cyfarfod y Cyngor, 12 Mawrth 2018**

**200/17 MATERION ARIANNOL**
Adroddodd Clerc y Dref ar fanylion cais a oedd wedi cael ei gyflwyno i Gyngor y Ddinas. Fe wnaeth yr Aelodau adolygu holl fanylion y mater ac roeddent o'r farn bod cwestiwn cymunedol o bwys arwyddocaol i'r mater hwn.

**PENDERFYNWYD**: y dylid cytuno â'r cais, yn amodol ar y manylion pellach a nodwyd yn y cyfarfod a bod y Maer, y Dirprwy Faer a Chlerc y Dref yn gwneud ymholiadau pellach ac yn cael y Pŵer i Weithredu.

Ffynhonnell: Cofnodion y Cyngor

65 Yn fy marn i, ac am y rhesymau a nodir isod, nid yw cofnodion y Cyngor yn cynnwys cofnod manwl gywir na digonol o'r penderfyniad i roi'r benthyciad i CBC Nantporth.

66 Nid yw cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 12 Mawrth 2018 yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at fenthyciad na'r rheswm dros ofyn amdano. Nid oes unrhyw gofnodion

eraill sy'n darparu manylion trafodaethau a phenderfyniadau a wnaed yn Rhan 2 cyfarfod y Cyngor.

67 Mae cyn-Glerc y Dref (Mr Jones) wedi fy hysbysu ei fod, yn ystod cyfarfod y Cyngor, wedi darllen llythyr oddi wrth CBC Nantporth, dyddiedig 13 Chwefror 2019, yn gofyn am y benthyciad neu rodd. Mae wedi darparu'r nodiadau o'r cyfarfod a wnaeth mewn llawysgrifen ar fy nghyfer.

68 Mae'r nodiadau mewn llawysgrifen yn awgrymu bod y Maer, y Dirprwy Faer a Chlerc y Dref yn cael y 'Pŵer i Weithredu' mewn perthynas â'r benthyciad. Fodd bynnag, nid yw'r 'Pŵer i Weithredu' wedi'i ddiffinio ac nid yw'n glir a yw'n ymwneud â negodi benthyciad ynteu ymrwymo i fenthyciad.

69 Mae cofnodion y Cyngor yn nodi 'y dylid cytuno â'r cais, yn amodol ar y manylion pellach a nodwyd yn y cyfarfod'. Nid yw'r manylion hyn wedi cael eu cofnodi ac nid yw'n glir a fodlonwyd yr amod hwn cyn rhoi'r benthyciad.

70 Yn fy marn i, mae cofnodion y Cyngor yn ddiffygiol am y rhesymau isod:

- nid ydynt yn darparu digon o dystiolaeth sy'n cyfiawnhau cymeradwyo'r cais am fenthyciad;
- nid ydynt yn cadarnhau gwerth, neu uchafswm gwerth, y benthyciad a fydd yn cael ei roi;
- nid ydynt yn nodi'r rhesymeg dros beidio â chodi llog yn ystod cyfnod y benthyciad;
- nid ydynt yn cadarnhau cyfnod y benthyciad.

# Argymhellion statudol a'r camau nesaf

## Argymhellion statudol

71 Rwyf o'r farn bod y materion yr adroddir arnynt uchod yn amlygu diffygion sylweddol yn nhrefniadau penderfynu a llywodraethu'r Cyngor. Rwyf wedi ystyried a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ar y materion hyn dan adran 22 Deddf 2004.

72 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ddogfen sy'n nodi fy nghasgliadau cychwynnol. Mae wedi paratoi a rhoi ystyriaeth gyhoeddus i adroddiad sy'n nodi'r trefniadau prydlesu ar gyfer y stadiwm gan gynnwys y risgiau posibl ac mae wedi ymrwymo i wella ansawdd ei drefniadau cadw cofnodion.

73 Yng ngoleuni'r camau gweithredu a gymerwyd yn barod gan y Cyngor yn ystod 2020, rwyf wedi penderfynu y bydd argymhellion statudol yn ddigonol ac nad yw'n ofynnol cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd.

74 Felly, rwy'n gwneud tri argymhelliad i gynorthwyo'r Cyngor i atal y diffygion hyn rhag digwydd eto. Yn fy marn i, dylid ystyried yr argymhellion hyn yn unol ag adran 25 Deddf 2004.

**Arddangosyn 9: argymhellion statudol a wneir dan adran 25 Deddf 2004**

Rwy'n gwneud tri argymhelliad statudol i fynd i'r afael â'r diffygion a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad.

**Argymhellion**

**Eglurhad o drefniadau prydlesu Stadiwm Nantporth a chytundebau eraill gyda CBC Nantporth**

A1 Dylai'r Cyngor gael adroddiad sy'n egluro'n llawn beth yw'r trefniadau ar gyfer prydlesu Stadiwm Nantporth a'r cytundebau ar gyfer dal cyfranddaliadau a rhoi benthyciad y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt gyda CBC Nantporth. Dylai'r adroddiad nodi'r buddion, a'r rhwymedigaethau a risgiau posibl y mae'r trefniadau a'r cytundebau hyn yn eu dwyn i'r Cyngor.

**Cofnodi penderfyniadau yng nghofnodion cyfarfodydd y Cyngor**

A2 Dylai'r holl benderfyniadau ynghylch materion arwyddocaol gael eu trafod gan y Cyngor fel ei fod yn gallu sicrhau ei fod wedi cael cyngor priodol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, cyn gwneud penderfyniadau ac ymrwymo i gytundebau cyfreithiol.

**Cofnodi penderfyniadau yng nghofnodion cyfarfodydd y Cyngor**

A3 Dylai'r penderfyniadau a wneir gan y Cyngor neu ei bwyllgorau lle mae aelodau'r cyhoedd a'r wasg wedi'u heithrio o'r cyfarfod gael eu cofnodi'n briodol ac yn fanwl gywir.

## Y camau nesaf

75 Mae Adran 25 Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd camau penodol er mwyn ymateb i'm hargymhellion.

76 Yn awr rhaid i'r Cyngor drefnu cyfarfod o fewn 30 diwrnod i gyhoeddi fy argymhellion. Rhaid hysbysebu'r cyfarfod trwy osod hysbysiad mewn papur newydd lleol. Rhaid i'r hysbysiad hwn nodi dyddiad ac amser y cyfarfod a diben y cyfarfod, h.y. ystyried yr argymhellion statudol.

77 Dylai'r Cyngor nodi bod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (y Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 wedi cael eu diwygio'n ddiweddar. O ganlyniad i'w diwygio, ni chaniateir eithrio'r cyhoedd o gyfarfod a gynhelir dan ofynion adran 25 Deddf 2004. Os caiff ei gynnal o bell, bydd angen i'r hysbysiad ynghylch y cyfarfod ddatgan sut y gall y cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfod.

78 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

79 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi. Wedyn bydd angen iddo gyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd lleol.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhagfyr 2020

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn destun: 029 2032 0660

Ebost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.